Commercial Operator
learning & development

colegsirgâr

Cyfle
Building Skills

# PRENTISIAETH GWEITHIWR ADEILADU PEIRIANNEG SIFIL



UNDEB EWROPEAIDD
EUROPEAN UNION

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cronfa Gymdeithasol Ewrop
European Social Fund

Mae'r Rhaglenni Prentisiaeth, Hyfforddeiaeth a Thwf Swyddi Cymru, a arweinir gan Lywodraeth Cymru, yn cael cymorth ariannol gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop.

Prentisiaethau
Apprenticeships

Llywodraeth Cymru
Welsh Government



**BETH MAE'R RÔL BRENTISIAETH YN EI OLYGU?**

Mae'r cymhwyster wedi'i gynllunio i hyfforddi pobl mewn gweithrediadau adeiladu megis gosod cyrbau a sianelau i safonau diwydiannol cydnabyddedig. Mae wedi'i anelu at y rheiny nad oes ganddynt unrhyw brofiad blaenorol o'r diwydiant (gweithwyr newydd) neu'r rheiny sydd mewn gwaith ac sy'n edrych am gydnabyddiaeth o'u dysgu a'u profiad blaenorol.
Gall dysgwyr sy'n ennill y cymhwyster hwn ei ddefnyddio i symud ymlaen yn y sector, neu i weithio tuag at gymhwyster arall.
Prif bwrpas y cymhwyster hwn yw datblygu cymhwysedd galwedigaethol y dysgwr fel gweithiwr adeiladu. Fel rhaglen wybodaeth bydd yn darparu, ar ôl ei chwblhau, y wybodaeth greiddiol sydd ei hangen i fodloni'r safon a gydnabyddir yn genedlaethol i gyflawni'r rôl.
Asesir y cymhwyster hwn trwy gwblhau amrywiol dasgau. Gellir cynnal y rhain trwy asesu ymarferol, cwestiynu ar sail gwybodaeth a/neu asesu ar-lein. Yna gall yr aseswr gadarnhau bod y dysgwr wedi bodloni gofynion y cymhwyster a bod ganddo'r wybodaeth greiddiol a'r sgiliau angenrheidiol.
Bydd y broses asesu'n sicrhau bod y dysgwr yn gallu:

- Dehongli'r cyfarwyddiadau'n gywir
- Dewis yr adnoddau priodol ar gyfer y dasg
- Cwblhau'r tasgau o fewn y graddfeydd amser a'r manylebau penodol

**YMRWYMIAD GAN GYFLOGWYR/PRENTISIAID**

Bydd cyflogwyr a phrentisiaid ill dau yn gwneud cytundeb dysgu prentisiaeth Llywodraeth Cymru cyn cychwyn y brentisiaeth. Am wybodaeth/disgwyliadau ynghylch Cytundebau dysgu Prentisiaeth ewch i: http://gov.wales/topics/educationandskills/skillsandtraining/apprenticeships/providers

**PA GYMWYSTERAU SY'N FFURFIO'R FFRAMWAITH ?**

**Teitl y Fframwaith - Fframwaith Peirianneg Sifil Adeiladu (Cymru)**

- Diploma Lefel 2 NVQ mewn Gweithrediadau Adeiladu a Gwasanaethau Peirianneg Sifil
- Gweithrediadau Adeiladu (Adeiladu)
- Diploma Lefel 2 mewn Gweithrediadau Adeiladu
- Cymwysterau Sgiliau Hanfodol
- Cymhwyso Rhif ar lefel 1
- Cyfathrebu ar lefel 1

**BETH MAE'R CYMHWYSTER YN EI GYNNWYS?**

Mae'n ofynnol i ymgeiswyr gwblhau unedau canlynol y cwrs Diploma:

- Iechyd, Diogelwch a Lles yn y Gweithle
- Cydymffurfio ag Arferion Gwaith Cynhyrchiol
- Gosod Rheolaeth Gwaith Ddimensiynol Eilaidd
- Arwyddo, goleuo a gwarchod yn yr ardal waith
- Gosod Cyrbau a Sianelau
- Gosod Palmentydd Modiwlaidd
- Chwilio am Wasanaethau Tanddaearol
- Taflu a signalu i symud llwythi
- Adfer cyflwr y tir

**GWYBODAETH GYSWLLT COLEG SIR GÂR**

Gareth David, Ymgynghorwr Hyfforddi
Campws y Graig, Heol Sandy, Llanelli, SA15 4DN.
01554 748607 / 07785 449146
gareth.david@colegsirgar.ac.uk
www.colegsirgar.ac.uk

**Commercial Operator Training Solutions**

Jason Mowforth, Y Cyfarwyddwr
Ty Sgiliau, Unedau 11-12 Parc Masnach Celtic, Heol Bruce, Fforestfach, Abertawe, SA5 4EP
01792 587250 (Abertawe) 02920 675969 (Caerdydd)
info@cotstraining.co.uk
www.cotstraining.co.uk